Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddwyr Addysg,
Cysylltiadau adran 52,
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

10 Gorffennaf 2024

Annwyl Gyfaill,

# Datganiadau Alldro Adran 52, 2023-24

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ein bod ni wedi anfon copïau electronig heddiw o ddatganiadau alldro Adran 52 ar gyfer 2023-24 at ein cysylltiad ni yn yr awdurdod. Dylai'r ffurflenni yma gael eu dychwelyd i'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol erbyn 9 Awst 2024. Mae Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003 yn gymwys i Ddatganiadau Alldro Adran 52 ar gyfer 2023-24.

Dylai copi caled o'r datganiad alldro llawn gael ei anfon hefyd at Tania Ryland, Is-adran Addysg, Cynllunio Busnes a Llywodraethu (0300 025 9806) ir cyfeiriad uchod erbyn yr un dyddiad.

Ebost: ariannu.ysgolion@llyw.cymru

Mae enwau'r ysgolion a rhifau cyfeirnod LICC wedi'u cynnwys ac rydyn ni wedi gosod yr ysgolion yn eu trefn drwy ddefnyddio rhifau cyfeirnod. Rydyn ni wedi cynnwys hefyd Cyfran Arfaethedig y Gyllideb fel y mae wedi'i dangos yng ngholofn 6 (cyfran pob ysgol o'r gyllideb) o ddatganiad cyllideb 2023-24. Sylwch fod y taenlenni wedi'u dylunio i wneud y gwaith cyfrifo yn awtomatig yn unol â Rheoliadau 2003. Rhaid i bob cell gael ei llenwi, gan ddefnyddio sero yn ôl yr angen.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn ag enwau ysgolion, rhifau ysgolion neu'r gyfran arfaethedig o'r gyllideb sydd wedi'i dangos ar y daenlen, cysylltwch â Frank Kelly (0300 025 5673) i drafod ymhellach cyn ichi lenwi'r ffurflen.

## Defnyddio'r data

Mae'r data sy'n cael ei gasglu ar y ffurflenni Adran 52 yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu datganiadau ystadegol a hefyd i briffio'r Gweinidogion. Pan fydd manylion terfynol y set ddata gyfan wedi'u pennu, bydd y data'n cael eu cyhoeddi ar wefan StatsWales er mwyn cymharu awdurdodau.

Bydd data yn cael ei gyhoeddi ar wefan FyYsgolLeol hefyd.

**Cyfeiriad e-bost dychwelyd:** YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru

Os byddwch yn rhag-weld unrhyw broblemau o ran dychwelyd y tablau drwy gyfrwng electronig erbyn y dyddiad cau, rhowch wybod inni cyn gynted ag y gallwch.

**Llinell Union / Direct Line: 0300 025 5673**
**E-bost / E-mail: ystadegau.cyllid@llyw.cymru**

Hoffwn ddiolch yn fawr ichi am gydweithredu yn yr ymarfer pwysig yma.

Yn gywir,

**Anthony Newby**
Uned Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

**Llinell Union / Direct Line: 0300 025 5673**
**E-bost / E-mail: ystadegau.cyllid@llyw.cymru**